



DARLLENWCH
Exodus 12: 31-39
a 14: 1-31

Mae'r stori hon
yn sôn am:
**Gallu rhyfeddol
Duw.**

Stori 3 Moses a'r ddihangfa o'r Aifft

Y noson honno pan fu farw gymaint o bobl yn yr Aifft, anfonodd Pharo am Moses ac Aaron.

“Cymerwch eich pobl, ac ewch allan o'm gwlad,” meddai.

Cyn hir, roedd miloedd o Israeliaid ar eu ffordd i gyfeiriad y Môr Coch.


Llanwch y geiriau sydd ar goll.

Meddai'r brenin,

“Cymerwch eich p _____ ac
ewch allan o'm g _____.”

Aeth yr Israeliaid i gyfeiriad y

M _____ C _____



Cyn hir, newidiodd Pharo ei feddwl. Aeth allan gyda'i fyddin fawr, ar gefn ceffylau a cherbydau, i geisio dod â'r Israeliaid yn ôl. Dechreuodd yr Israeliaid ofni'n arw. O'u blaen roedd y Môr Coch; tu ôl iddyn nhw roedd byddin yr Eifftiaid. Roedd hi'n edrych fel pe baen nhw wedi eu dal mewn magl!

Dywedodd Moses wrthyn nhw am beidio ag ofni, oherwydd byddai Duw'n eu hachub.

Lliwiwch y llythrennau.

“Byddwch gadarn”, meddai Moses, “ac edrychwch ar

waredigaeth yr
Arglwydd.”

Wyddoch chi beth wnaeth Duw? Anfonodd wynt cryf iawn. Chwythodd y gwynt drwy'r nos. Gwthiwyd y dŵr yn ôl gan y gwynt. Roedd Duw wedi gwneud llwybr i'r Israeliaid drwy'r môr. Dim ond cerdded drwyddo oedd rhaid! Ceisiodd byddin Pharo eu dilyn, ond daeth y tonnau yn ôl yn sydyn! Erbyn y bore, roedd pob un o'r Eifftiaid wedi boddi yn y Môr Coch!

Roedd gallu rhyfeddol Duw wedi achub yr Israeliaid. Nawr, roedden nhw wir yn rhydd!